

Benthyg ... neu beidio?

Craig yn datrys *eich problemau*

Annwyl Rhydian

Diolch am dy lythyr di. I ateb dy gwestiwn - na fyddwn, fyddwn i ddim yn dy gynghori di i fenthyg arian oddi wrth y dyn yma - dim o dan unrhyw amgylchiadau! Efallai ei fod e'n ffrind i ffrind ond alla i ddim pwysleisio pa mor bwysig yw hi i ti **beidio â** chymryd ceiniog oddi wrtho. Gallai pethau droi allan yn gas iawn!

Mae hanesion di-rif ar y newyddion, mewn papurau newydd ac ar y we am bobl sy'n cael eu temtio i fenthyg arian oddi wrth bobl dydyn nhw ddim yn eu hadnabod. Efallai mai rhai cannoedd o bunnau maen nhw'n eu benthyg, ond, yn aml iawn, maen nhw'n gorfod talu miloedd a miloedd yn ôl i'r benthygiwr.

Sut? Mae benthygwyr arian yn disgwyl i ti dalu llog, h.y. rhaid talu'n ôl fwy nag wyt ti'n ei fenthyg. Rhaid i ti dalu am gael benthyg. Os ei di i fanc, neu i gymdeithas adeiladu, mae rhaid iddyn nhw gadw at reolau llym iawn a chân nhw ddim codi swm afresymol o uchel arnat ti. Ond os ei di at fenthygwyr arian sy'n gweithio'n annibynnol, dydyn nhw ddim yn cadw at y rheolau hyn ac maen nhw'n twyllo pobl yn ofnadwy weithiau.

Mae un hanes am ddynes oedd eisiau benthyg £350 er mwyn prynu cyfrifiadur ail law i'w merch. Aeth at fenthygiwr arian i ofyn am yr arian a chynigiodd hwnnw £500 iddi. Iawn - roedd popeth yn edrych yn ddelfrydol. Ond doedd hi ddim yn sylweddoli ar y pryd y byddai'n rhaid iddi dalu £250 y mis iddo am gael benthyg yr arian yma. Felly, cyn gwneud unrhyw beth, roedd y swm roedd rhaid iddi ei dalu'n ôl yn £750. Am bob mis roedd hi'n methu talu'n ôl, roedd £250 arall yn cael ei ychwanegu at y swm. Nid dim ond hynny, ond cafodd y ddynes fenthyciadau bach eraill oherwydd ei bod hi'n methu talu ei biliau erbyn hyn ac, yn y diwedd, roedd disgwyl iddi dalu'n ôl £1,840 o log bob mis. Ar ôl saith mlynedd, roedd hi wedi talu £90,000 yn ôl i'r benthygiwr arian. Dechreuodd y



problemau hyn ar ôl cael un benthygiad er mwyn prynu cyfrifiadur ail law!

Mae mwy o hanesion fel hyn ar y we ac yn y papurau newydd. Nid ffuglen ydyn nhw, ond hanesion go iawn am bobl go iawn!

Does neb yn rheoli'r benthygwyr annibynnol hyn. Mae'n wir eu bod nhw'n gallu bod yn hyfryd ac yn gyfeillgar iawn pan fyddi di'n eu cyfarfod nhw am y tro cyntaf, ond unwaith i ti fethu talu'n ôl, maen nhw'n dechrau bygwth a mynd yn gas. Mae rhai yn cymryd dy eiddo di o dy gartref a dogfennau pwysig fel dy basbort di!

Felly, fy nghyngor i i ti, ac i unrhyw un arall sy'n darllen y darn hwn heddiw, yw **peidiwch â benthyg arian oddi wrth rywun fel hyn**. Os oes rhaid i chi fenthyg, ewch i'r banc neu i'r gymdeithas adeiladu, neu'n well byth, peidiwch â phrynu unrhyw beth allwch chi mo'i fforddio. Safiwch. Cynilwch! Peidiwch â chael eich temtio!

Bydda'n ofalus, Rhydian!

Craig